



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

# Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:		Dyddiad cyhoeddi:	DD / MM / BBBB
---------------------	--	-------------------	----------------

Statws:	
---------	--

Teitl:	
--------	--

Cyhoeddwyd gan:	
-----------------	--

Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:

Crynodeb:

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:	
	Llinell Uniongyrchol:
	E-bost:
	Gwefan:

## Gofynion rheoleiddiol mewn perthynas â systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal ar gyfer plant.

1. Mae sawl ymholiad wedi dod i law yn ddiweddar mewn perthynas â chartrefi gofal ar gyfer plant a pha un a yw'r gofynion ar gyfer systemau llethu tân awtomatig yn berthnasol i'r math hwn o ddeiliadaeth. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau ar y gofynion rheoleiddiol presennol. I symleiddio'r fframwaith rheoleiddiol, byddwn yn ystyried dwyn ymlaen y gofynion ar gyfer systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal ar gyfer plant yn Rheoliadau Adeiladu 2010 (y Rheoliadau Adeiladu) cyn gynted â phosibl.
2. Mae'r gofyniad i ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn preswylfa wedi'i gynnwys ym Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru). Gwnaed y mesur ym mis Ebrill 2011 ar adeg cyn datganoli'r Ddeddf Adeiladu a'r Rheoliadau i Weinidogion Cymru o ran Cymru.
3. Ar 22 Hydref 2013, daeth darpariaethau penodol yn y Mesur i rym gan Orchymyn Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2013 ([Offerynnau Statudol Cymru 2013 Rhif 2727 \(Cy. 262\)](#)). Yn dilyn hynny, mae gofynion sy'n ymwneud â'r Mesur wedi'u rhagnodi gan Reoliadau Adeiladu etc. (Diwygio Rhif 3) a Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2013 ([Offerynnau Statudol Cymru 2013 Rhif 2730 \(Cy. 264\)](#)) ac mae diwygiadau wedi'u gwneud gan Orchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 ([Offerynnau Statudol Cymru 2013 Rhif 2723 \(Cy. 261\)](#)).
4. Ymhlith y darpariaethau a ddaeth i rym yn 2013 oedd adran 1(3)(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu systemau llethu tân awtomatig. Dim ond pan naid yw'r Rheoliadau Adeiladu eisoes yn gosod unrhyw ofynion ar y gwaith adeiladu y mae'r Mesur yn berthnasol.
5. Mae Rheoliad 37A o'r Rheoliadau Adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol darparu systemau llethu tân awtomatig mewn adeiladau penodol. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal ond dim ond y cartrefi gofal hynny a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer pobl 18 oed neu'n hyn<sup>1</sup>.
6. Mae adran 6 o'r Mesur yn diffinio preswylfeydd y mae'r Mesur yn berthnasol iddynt ac wedi'u cynnwys ymhlith y preswylfeydd hyn y mae cartrefi gofal ar gyfer plant o fewn yr ystyr a roddir yn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016<sup>1</sup>. Mae'r gofynion ar gyfer cartrefi gofal plant yn ymwneud â phlant o dan 18 oed. Nid yw'r gofynion yn Rheoliad 37A o'r Rheoliadau Adeiladu mewn perthynas â darparu systemau llethu tân awtomatig yn berthnasol i gartrefi gofal ar gyfer plant. Mae'r gofynion yn berthnasol drwy'r Mesur.

### Cyfrifoldeb Cydymffurfio

7. Yn unol ag Adran 1(1) o'r Mesur, pan gynigir adeiladu, addasu, ymrannu neu gyfuno adeiladau i greu cartref gofal ar gyfer plant, rhaid bod system llethu tân awtomatig wedi'i gosod yn y cartref gofal.

---

<sup>1</sup> Roedd y Mesur yn cyfeirio at Adran 1 ar gyfer Cartrefi Plant ac roedd y Rheoliadau Adeiladu yn cyfeirio at Adran 3 ar gyfer Cartrefi Gofal o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Fodd bynnag, ar ôl cychwyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gwnaed diwygiadau canlyniadol gan Reoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2018. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Mesur ac Adeiladu i gywiro'r cyfeiriad yn unig ac nid ydynt yn addasu effaith y naill ddarpariaeth.

8. Felly, mae gan bobl sy'n cyflawni gwaith dylunio neu adeiladu (ee dyluniwr, adeiladwyr neu osodwr) gyfrifoldeb i sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion sy'n ymwneud â'r adeilad hwnnw. Perchennog yr adeilad sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn y pen draw ac mae hynny'n cynnwys cydymffurfio â'r Mesur.
9. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) yn rheoleiddio cartrefi gofal ar gyfer plant yng Nghymru. I gofrestru cartref gofal ar gyfer plant, rhaid bod CIW wedi'i fodloni y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae CIW yn ystyried bod y Rheoliadau Adeiladu a'r Mesur<sup>2</sup> yn ddeddfwriaeth berthnasol at y diben hwn.

### **Safon cydymffurfio**

10. Er mwyn cydymffurfio ag adran 1(4) o'r Mesur, mae'n ofynnol:
  - a) bod system llethu tân awtomatig<sup>3</sup> yn cael ei darparu mewn pob cartref gofal ar gyfer plant;
  - b) bod y system yn gweithredu'n effeithiol; ac
  - c) bod y system yn cydymffurfio â'r gofynion hynny y gellir eu rhagnodi.
11. Ystyrir bod system llethu tân awtomatig yn cydymffurfio â'r Mesur os yw'n dilyn y gofynion a nodir yn Nogfen Gymeradwy B ar gyfer systemau llethu tân awtomatig sy'n ofynnol gan Ran 7A o'r Rheoliadau Adeiladu.
12. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod y sefyllfa hon yn gymhleth ac maent yn ystyried dod â chartrefi gofal ar gyfer plant o dan gylch gorchwyl y Rheoliadau Adeiladu a fyddai yna yn golygu na fyddent yn rhan o gylch gorchwyl y Mesur.

### **Ymholiadau:**

13. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y Cylchlythyr hwn at:

Francois Samuel, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Rhif ffôn: 03000 628232.

E-bost: [enquiries.brconstruction@gov.wales](mailto:enquiries.brconstruction@gov.wales)

Yn gywir



**Francois Samuel**  
**Pennaeth Rheoliadau Adeiladu**

---

<sup>2</sup> <https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2020-02/200131-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-2016-canllawiau-ar-gofrestru-cy.pdf>

<sup>3</sup> Mae cyfeiriadau at system llethu tân awtomatig hefyd yn cynnwys unrhyw gyflenwad ynni, dŵr, neu sylwedd arall, sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r system yn effeithiol.